

CLWYD-POWYS ARCHAEOLOGICAL TRUST

The Romans in mid Wales

RHITHWIRIONEDD

VIRTUAL REALITY



Y Rhufeiniaid yng
nghanolbarth Cymru

YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL CLWYD-POWYS

Mae model rhithwir ar-lein y Rhufeiniaid yng Nghanolbarth Cymru wedi'i seilio ar adlunaid clwstwr o safleoedd Oes yr Haearn a safleoedd Rhufeinig o amgylch Caersws yn rhan uchaf dyffryn Hafren. Mae'n dechrau gyda'r llwythi Oes yr Haearn a oedd yn byw yn yr ardal, ac yna'n mynd ymlaen i edrych ar y goncwest Rufeinig ac effaith y goncwest ar fywyd pobl leol.

Gellir adrodd stori debyg am y clystyrau o safleoedd o amgylch ceyrydd Rhufeinig eraill yng nghanolbarth Cymru – yng Nghaer Ffordun (Trefaldwyn), Castell Collen (Llandrindod), Hindwell (Maesyfed), Caerau (Beulah), Pen-y-gaer (Bwlch), a Chaer Aberhonddu (Aberhonddu).

Mae'r llyfryn hwn yn dangos rhai o'r pethau y gallwch ddod o hyd iddyn nhw yn y model (gweler y safleoedd wedi'u rhifo ar y map ar y dudalen ôl). Daw'r silwetau o furluniau a cherfluniau Rhufeinig.

The Romans in Mid Wales online virtual reality model is based on the reconstruction of a cluster of Iron Age and Roman sites around Caersws in the upper Severn valley. It begins with the Iron Age tribes living in the area, then goes on to look at the Roman conquest and the impact of the conquest on the lives of local people.

A similar story can be told about the clusters of sites around other Roman forts in mid Wales – at Forden Gaer (Montgomery), Castell Collen (Llandrindod Wells), Hindwell (New Radnor), Caerau (Beulah), Pen-y-gaer (Bwlch), and Brecon Gaer (Brecon).

This booklet shows some of the things you can find in the model (see numbered sites on the map on the back page). The silhouettes are taken from Roman sculptures and wall paintings.

<http://www.cpat.org.uk/vr/powys>




■ I gael mynediad i'r byd rhithwir hwn am y tro cyntaf, mae angen i'ch porwr gwe fod ag ategyn VRML (iaith modelu rhithwirionedd) rhad ac am ddim. Dilynwch gyswllt i gael gafael ar fersiwn ddiweddaraf y rhaglen hon am ddim (ychydig eiliadau yn unig sydd eu hangen).

Unwaith y byddwch wedi mynd i mewn i'r model, bydd de-glicio â'ch llygoden yn mynd â chi at ddewislen 'Viewpoints'. Gallwch naill ai ddewis y daith osod – gyda sylwebaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg – neu neidio'n syth i un o'r safleoedd. Gallwch hefyd symud trwy'r model ar eich pen eich hun, gan ddefnyddio'r llygoden neu fysellau'r cychwr. Mae bar dewislenni ar y gwaelod yn caniatáu ichi gerdded, hedfan, tremio, llithro a neidio. Mae'r map ar ochr dde brig y sgrin yn dangos lle ydych chi a'r cyfeiriad rydych yn edrych iddo.

■ To enter this virtual world for the first time your internet browser requires a VRML (virtual reality modelling language) plug-in. Follow a link to obtain the most recent free version of this program (this only takes a few seconds).


Once you have entered the model a right click of your mouse will give you access to the 'Viewpoints' menu. Choose either the tour – with a commentary in Welsh or English – or jump straight to one of the viewpoints. You can also navigate through the model by yourself, using the mouse or cursor keys. A menu bar at the bottom lets you to walk, fly, pan, slide and jump. The map at the top right of the screen shows where you are and the direction you are looking in.

Roedd cymunedau Oes yr Haearn yn ffermio'r dirwedd ymhell cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd. Fferm Oes yr Haearn **5** ar y bryniau isel i'r gogledd o'r dyffryn.




The landscape was being farmed by Iron Age communities long before the coming of the Romans. Iron Age farmstead **5** on the low hills north of the valley.

Fferm Oes yr Haearn **3** ar ymyl y bryniau isel i'r de o'r dyffryn, gyda chlawdd a ffos yn ei hamddiffyn.




Iron Age farmstead **3** on the edge of the low hills south of the valley, defended by a bank and ditch.

Fferm Oes yr Haearn neu'r cyfnod Rhufeinig, gyda ffos allanol **7** ar lawr y dyffryn.



Iron Age or Roman farmstead with outer ditch **7** on the floor of the valley.




■ Bryngaer Oes yr Haearn **1** yn tremio dros y dyffryn. Mae cloddiau a ffosydd yn amddiffyn y fryngaer.



■ Iron Age hillfort **1** with a commanding view across the valley. The hillfort is defended by banks and ditches.

■ Tai crwn â tho gwellt y tu mewn i'r fryngaer.




■ Roundhouses with thatched roofs inside the hillfort.



■ Caer Rufeinig gynharach **4** ar fryn isel yn tremio dros yr afon gyda chloddiau a ffosydd yn amddiffynfydd. Fe'i disodlwyd gan y gaer fwy parhaol a welir yn y cefndir.



■ Earlier Roman fort **4** with defences of banks and ditches set on a low hill overlooking the river. It was replaced by the more permanent fort visible in the background.



Caer Rufeinig ddiweddarach **8** gyda blociau barics, granar, adeilad y pencadlys a thŷ'r cadlywydd y tu mewn i'r amddiffynfeydd.



Later Roman fort **8** with barrack blocks, granary, headquarters building and commander's house inside the defences.



Roedd cyfres o gloddiau a ffosydd yn amddiffyn y gaer ddiweddarach. I ddechrau, roedd yr amddiffynfeydd o bridd a choed, ond fe'u disodlwyd yn ddiweddarach gan amddiffynfeydd o garreg.



The later fort was protected on the outside by a series of banks and ditches. Initially the defences were of earth and timber, later replaced in stone.



Roedd pont bren dros y ffosydd a chloddiau allanol yn arwain at borth deheuol y gaer ddiweddarach.



The south gate of the later fort was approached by a timber bridge across the outer banks and ditches.



Cododd anheddiad bach rhwng y gaer ddiweddarach **8** a'r afon.



A small settlement sprang up between the later fort **8** and the river.

Roedd crefftwyr a siopwyr yn byw yn yr anheddiad ac yn diwallu anghenion y fyddin.



The settlement housed craftsmen and shopkeepers who catered for the army.



Y tu allan i borth deheuol y gaer, roedd baddondy lle byddai'r milwyr yn ymolchi ac yn ymlacio.



Outside the south gate of the fort was a bath-house where the soldiers washed and relaxed.




Tŷ ac adeiladau y tu mewn i fferm fach **6**, ychydig i'r gogledd o'r gaer Rufeinig ddiweddarach.



House and buildings inside the small farmstead **6** just to the north of the later Roman fort.

Gorwedda'r fferm fach **6** ar draws y caeau o'r gaer, a welir yn y cefndir.




The small farmstead **6** lies across the fields from the fort, visible in the background.

Fferm fach arall **2**, gerllaw'r ffordd Rufeinig yn rhedeg i'r de o'r gaer Rufeinig.



Another small farmstead **2** close to the Roman road running south from the Roman fort.





- 1 Cefncarnedd ■ Bryngaer Oes yr Haearn ■ Iron Age hillfort
- 2 Gellidywyll ■ Fferm Rufeinig ■ Roman farmstead
- 3 Moat Farm ■ Fferm Oes yr Haearn ■ Iron Age farmstead
- 4 Llwyn y brain ■ Caer Rufeinig gynharach ■ Earlier Roman fort
- 5 Gwynfynydd ■ Fferm Oes yr Haearn ■ Iron Age farmstead
- 6 Henfryn ■ Fferm Rufeinig ■ Roman farmstead
- 7 Park Cottage ■ Fferm ■ Farmstead
- 8 Caersws ■ Caer Rufeinig ddiweddarach ■ Later Roman fort

CyMAL
Museums Archives
and Libraries Wales


Powys

 **Cadw**



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

The virtual reality model has been produced by the Clwyd-Powys Archaeological Trust and Steve Smith (below) for the Powysland Museum with funding from CyMAL, Cadw and Powys County Council. Iolo Williams (right) kindly narrated the Welsh and English commentaries which accompany the animated tour.



© CPAT

The Clwyd-Powys Archaeological Trust
7a Church Street
Welshpool, Powys, SY21 7DL

tel 01938 553670, fax 01938 552179
email trust@cpat.org.uk
website www.cpat.org.uk

Registered Charity 508301
Limited Company 1212455